Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 11 MEHEFIN 2026 am 2.00 o'r gloch** | **THURSDAY, 11 JUNE 2026 at 2.00 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC Y RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Shirley Cooke 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Carwyn E Jones, Dylan Rees, *(sedd wag/vacant seat x2)*

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Jeff Evans, Aled Morris Jones

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

Keith Roberts *(Cadeirydd/Chair)*

# R H A G L E N

1 **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2026 a 12 Mai 2026.

4 **DIWEDDARIAD ADOLYGIAD CYMUNEDOL** (Tudalennau 7 - 10)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

5 **AROLWG BODLONRWYDD AELODAU** (Tudalennau 11 - 14)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

6 **DIWEDDARIAD GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 15 - 18)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Keith Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Llio A Owen (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff Evans, Carwyn E Jones, Gwilym O Jones, Dylan Rees, Ken Taylor |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol<br>Rheolwr Polisi a'r Gymraeg<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

Bu'r Cadeirydd longyfarch Llio Owen ar enedigaeth diweddar ei mab.

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3. COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU - ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2026-27**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar adroddiad blynyddol cyntaf y Comisiwn Ffiniau. Y Comisiwn sy'n gosod y strwythur cyflogau ar gyfer cyflogau a lwfansau aelodau. Nodwyd nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am bennu unrhyw gynnydd yng nghyflogau'r Aelodau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y bydd y Comisiwn yn parhau i ddefnyddio'r fframwaith presennol ar gyfer 2026/27, fel a osodwyd gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol diwethaf. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu y bydd y strwythur cyflogau aelodau yn gysylltiedig â'r Arolwg Blynyddol Cyflogau ac Enillion (ASHE), sy'n cynrychioli cynnydd o 6.4% mewn cyflogau ar gyfer aelodau, sy'n gynnydd o £63k yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/27.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar nodau'r Llywodraeth ar gyfer y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Nododd fod y gwaith wedi dechrau ar amcanion allweddol y Comisiwn mewn perthynas â Chydnabyddiaeth

Ariannol.  Nodwyd pan fydd y fframwaith wedi'i adolygu a'i addasu y bydd yn golygu newidiadau sylweddol i'w gynnwys erbyn 2027.

Gofynnwyd am gadarnhad a oedd aelodau etholedig, a oedd hefyd yn cynrychioli Cynghorau Tref / Cymuned, â'r hawl i hawlio lwfansau ar gyfer y ddwy swydd? Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n edrych i mewn i'r mater ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y man.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r penderfyniadau terfynol sydd yn adroddiad cydnabyddiaeth y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gyfer 2026-27.**
- **Bod Adroddiad Ariannol Blynyddol y Comisiwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 12 Mai 2026 i'w gymeradwyo.**
- **Bod y Pennaeth Democrataidd yn edrych a oedd gan aelodau etholedig a Chynghorwyr Tref a Chymuned yr hawl i hawlio lwfans am y ddwy rôl ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.**

## 4. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol a oedd yn rhoi diweddariad ar yr hyfforddiant a gynigiwyd i'r aelodau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwn ym mis Tachwedd 2025.

Dywedodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol bod 60 o gyfleoedd hyfforddi a datblygu wedi'u cynnig i aelodau ers mis Ebrill 2023.  Nododd fod pwyslais wedi'i roi ar gyrsiau mandadol, lle mae presenoldeb wedi cynyddu'n sylweddol dros y cyfnod diwethaf ac mae ffigyrau cadarnhaol wedi eu cofnodi o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

Nodwyd fod sgyrsiau blynyddol aelodau ar y gweill ar hyn o bryd ac y bydd unrhyw feysydd hyfforddiant a amlygir yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu ar gyfer y flwyddyn nesaf.   Mae cydweithio agos yn parhau rhwng y tîm adnoddau dynol a staff gwasanaethau democrataidd er mwyn bodloni anghenion aelodau etholedig.

Darparwyd diweddariad ar ddatblygiadau Diogelu a disgwyliadau ar gyfer y dyfodol o ran y fframwaith newydd.   Amlygwyd fod hyfforddiant Diogelu wedi ei ddynodi fel hyfforddiant mandadol ar gyfer holl staff y Cyngor (Grŵp A), gyda disgwyliad fod aelodau etholedig (Grŵp F) yn cwblhau'r modiwl e-ddysgu ar y Gronfa ddysgu.

Nodwyd fod y Cynllun Datblygu ar gyfer Arweinyddion Grwpiau wedi ei gwblhau a bod data yn cael ei roi at ei gilydd er mwyn gallu darparu adborth yn y man.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 5. TÎM POLISI AC IAITH GYMRAEG - TROSOLWG O WAITH A CHYFRIFOLDEBAU'R TÎM

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Polisi ac Iaith Gymraeg gan ddarparu

trosolwg o waith y Tîm Polisi ac Iaith Gymraeg a'u cyfrifoldebau. Nododd mai prif rôl y tîm yw sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ac yn datblygu diwylliant cadarnhaol o ran yr Iaith Gymraeg a chydraddoldeb.

Holwyd am y gefnogaeth y mae'r ddau bencampwr sy'n Aelodau Etholedig yn ei dderbyn gan y tîm Polisi. Ymatebodd y rheolwr Polisi ac Iaith Gymraeg gan ddweud bod cydweithio agos yn bodoli rhwng y tîm a'r Pencampwyr Aelodau wrth baratoi adroddiadau blynyddol a drwy gefnogi Aelodau Portffolio i wneud eu gwaith. Nodwyd fod y ddau bencampwr yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a Grŵp Llywio'r Gymraeg a'u bod yn arwain mewn meysydd lle mae ganddynt bwerau cyfansoddiadol i awdurdodi penderfyniadau allweddol sydd wedi eu dirprwyo.

Adroddodd y Rheolwr Polisi ac Iaith Gymraeg fod y tîm Polisi yn cydlynu presenoldeb y Cyngor yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Môn eleni. Mae amserlen o ddigwyddiadau yn cael ei rhoi at ei gilydd gyda thrafodaethau yn parhau o ran y gweithgareddau a fydd ar gael i bobl ifanc gyda'r pwyslais ar gael hwyl. Bydd arddangosfa o'r hyn sydd gan y Cyngor i'w gynnig hefyd ar gael drwy wahanol Wasanaethau.

Codwyd cwestiwn am faterion cynllunio a'r Gymraeg. Ymatebodd y Rheolwr Polisi ac Iaith Gymraeg yr ystyrir methodoleg Canllawiau Atodol y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn penderfynu a fydd ceisiadau o natur benodol angen datganiad neu asesiad Iaith Gymraeg wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Cafwyd trafodaeth ar a ellir gweithredu ystyriaethau iaith Gymraeg mewn perthynas â cheisiadau cynllunio lle nad yw gwaith adeiladu eisoes wedi dechrau? Nodwyd nad oes modd i Swyddogion Cynllunio ail ymweld â cheisiadau cynllunio sydd eisoes wedi derbyn caniatâd.

Amlygwyd fod y tîm Polisi ac Iaith Gymraeg yn chwarae rhan hanfodol o ran sicrhau cydymffurfiaeth, atebolrwydd a llywodraethiant cryf o fewn Gwasanaethau Democrataidd.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 6. DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth mewn perthynas â materion cefnogi a llywodraethiant.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau democrataidd y bydd aelodau etholedig, dros y dyddiau nesaf, yn cael eu hatgoffa o'r angen iddynt gwblhau eu hadroddiadau blynyddol ar gyfer 2025/26. Bydd templed diwygiedig yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaethau Democrataidd gyda chyfarwyddiadau ar sut i lenwi'r adroddiadau, a fydd angen eu cyflwyno i'r Gwasanaethau democrataidd erbyn diwedd Mai, ar gyfer eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ym mis Mehefin. Nodwyd fod cefnogaeth ar gael i aelodau a allai fod angen cymorth.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod gwybodaeth wedi'i rhannu ag Arweinyddion Grwpiau o ran trefniadau sgyrsiau blynyddol. Nododd bod aelodau'n cael eu hannog i rannu eu hanghenion datblygu, llesiant ac hyfforddiant

yn gyfrinachol â'r staff perthnasol. Nodwyd y darperir Arweinyddion Grwpiau â diweddariadau rheolaidd am hyfforddiant eu haelodau ar gyfer dibenion monitro. Mae ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd ar drefniadau etholiadol, yn adolygu nifer yr aelodau Cynghorau Tref a Chymuned a'u wardiau. Bydd yn canfod a yw trefniadau'r wardiau etholiadol presennol a nifer y Cynghorau Tref a Chymuned yn briodol ar gyfer yr etholiadau lleol yn 2027, cyflwynir y canlyniadau i'r Cyngor Sir ym mis Medi. Nodwyd mai dim ond 8 neu 9 Cyngor Tref a Chymuned, allan o gyfanswm o 40, sydd wedi ymateb sy'n siomedig. Nodwyd ymhellach fod ychydig ddyddiau ar ôl cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Mae nodyn atgoffa wedi'i anfon gan y Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn i'r Cynghorau Tref a Chymuned rheini nad ydynt wedi ymateb i'r ymgynghoriad, i wneud hynny. Cynhelir adolygiad pellach ar y cynigion terfynol ym mis Hydref, a hynny mewn pryd i weithredu unrhyw newidiadau cyn yr etholiadau lleol yn 2027.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y gwasanaeth ar hyn o bryd yn cydweithio â Chyngor Conwy wrth baratoi ar gyfer Etholiadau Senedd Cymru ar 7 Mai. Bydd y cyfnod cyn etholiad yn dod i rym ar 25 Mawrth ac nid 26 Mawrth fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Amlygwyd fod codi ymwybyddiaeth o faterion democrataidd a gwahodd ysgolion i fynychu sesiynau cwestiwn ac ateb yn siambr y Cyngor yn cael ei groesawu gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2:45 pm

**Y CYNGHORYDD KEITH ROBERTS**
**CADEIRYDD**

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Non Dafydd, Carwyn Jones, Gwilym Jones, Llio Angharad Owen, Dylan Rees, Keith Roberts, Ken Taylor. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas – Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jeff Evans, Aled Morris Jones |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Llio Angharad Owen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 11 Mehefin 2026 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diweddariad Adolygiad Cymunedol |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r ymgynghoriad cychwynnol a'r camau nesaf |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Sir Ynys Môn, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, i fonitro'r cymunedau o fewn y sir a threfniadau etholiadol y cymunedau hynny, a chynnal arolygon pan fo'n briodol. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau ac wrth gynnal unrhyw adolygiad, rhaid i'r Cyngor geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

2. At ddibenion yr arolygon hyn, uned llywodraeth leol islaw lefel cyngor sir (y 'prif gyngor') yw cymuned. Mae Ynys Môn wedi ei rhannu'n 40 cymuned, gyda chyngor tref neu gyngor cymuned yn gwasanaethu pob un. Yn y cyd-destun hwn yr un yw statws cyfreithiol y cynghorau beth bynnag y'i gelwir, h.y. maent i gyd yn cael eu hystyried yn 'gynghorau cymuned'. Gall cymunedau yn eu tro gael eu rhannu'n wardiau at ddibenion etholiadol ond nid yw hyn yn anorfod, ac nid yw pob ardal cyngor cymuned wedi eu rhannu'n wardiau.

**Arolwg cymunedol o'r trefniadau etholiadol 2026 – Cylch Gorchwyl**

3. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi penderfynu adolygu trefniadau etholiadol cymunedol yr Ynys yn ystod 2026. Nod yr adolygiad ydi sicrhau bod y trefniadau etholiadol ar gyfer pob cyngor tref a chymuned yn darparu llywodraeth leol effeithiol.

4. Wrth gynnal yr arolwg bydd y Cyngor Sir yn ystyried:
    a. nifer yr aelodau ar y cyngor cymuned;
    b. rhannu'n wardiau (os yw'n briodol) at ddibenion ethol cynghorwyr;
    c. nifer a ffiniau unrhyw wardiau;
    d. nifer yr aelodau sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward;
    e. enw unrhyw ward.

5. Cynhelir yr adolygiad yn unol ag adran 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Mae'n arfer da cynnal yr adolygiad cyn etholiadau lleol 2027 fel bod unrhyw argymhellion yn weithredol erbyn hynny. Disgwylir hefyd i'r Cyngor gynnal yr adolygiad cyn i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynnal arolwg etholiadol o'r Cyngor Sir sydd wedi ei gynllunio ar gyfer 2027/28.

**Amserlen**

6. Mae 4 cam statudol i'r arolwg a byddwn yn dilyn yr amserlen ganlynol:

| | |
|---|---|
| Cam 1 – cyhoeddusrwydd cychwynnol | • Cysylltu gyda chynghorau tref a chymuned ac ymgynghoreion eraill i godi ymwybyddiaeth am yr arolwg<br>• Cyhoeddi gwybodaeth ar wefan y Cyngor |
| Cam 2 – ymchwiliad ac ymgynghoriad cychwynnol | • Ymgynghoriad cychwynnol yn dechrau ar 26 Ionawr tan 13 Mawrth<br>• Ystyried sylwadau ac ymchwilio pellach yn ystod Ebrill i Gorffennaf |
| Cam 3 – cynigion drafft ac ymgynghori ar y cynigion hynny | • Cymeradwyo cynigion drafft yn y Cyngor Sir ym mis Medi<br>• Ymgynghori ar y cynigion drafft am 6 wythnos rhwng Medi a Tachwedd |
| Cam 4 – argymhellion terfynol | • Cyflwyno argymhellion terfynol i'r Cyngor Sir ym mis Rhagfyr 2026.<br>• Dod i rym erbyn etholiadau lleol Mai 2027. |

**Cynnydd**

7. Mae camau 1 a 2 wedi eu cwblhau a byddwn yn datblygu cynigion drafft dros yr haf er mwyn ymgynghori arnynt yn yr hydref (cam 3).

8. Cafwyd 23 ymateb i'r ymgynghoriad cychwynnol (cam 2), 4 cyngor tref, 18 cyngor cymuned ac un aelod o'r cyhoedd. Mae crynodeb o sylwadau'r isod:

| **Cwestiwn** | **Crynodeb o’r sylwadau** |
|---|---|
| Cwestiwn 1: Ydy nifer yr aelodau ar y cyngor tref / cymuned yn addas? | Cafwyd 22 ymateb<br><br>Roedd 16 yn credu bod y nifer yn addas, gan gynnwys y 4 cyngor tref. Roedd 3 yn credu bod gormod o aelodau ar eu cyngor ac yn cael trafferth llenwi seddi. Cyflwyno gwybodaeth ffeithiol yn unig wnaeth 3 arall. |
| Cwestiwn 2: Oes gennych chi unrhyw seddi gwag? | Cafwyd 21 ymateb<br><br>Roedd 17 yn adrodd bod ganddynt seddi gwag a 4 yn adrodd nad oedd ganddynt. Roedd mwyafrif y cynghorau yn adrodd bod seddi wedi dod yn wag yn weddol ddiweddar ond roedd rhai wedi methu llenwi seddi ers dwy neu dair blynedd. |
| Cwestiwn 3: Ydych chi wedi cynnal etholiad neu gyfethol aelodau ers Mai 2022? | Cafwyd 22 ymateb<br><br>Roedd 20 yn adrodd eu bod wedi mynd trwy’r broses o lenwi seddi ers 2022, a 2 yn adrodd nad oeddynt wedi gorfod gwneud.<br><br>4 etholiad sydd wedi ei gynnal mewn cynghorau tref a chymuned ers Mai 2022. Dau etholiad llawn a dau yn ddiwrthwynebiad. Mae’r holl seddi eraill wedi eu llenwi drwy broses gyfethol. |
| Cwestiwn 4: Os ydi’r gymuned wedi ei rhannu’n wardiau etholiadol ydi’r trefniadau yn addas? Os ddim, beth fyddai’n gweithio’n well? | Cafwyd 14 ymateb<br><br>Roedd 4 yn credu bod trefniadau wardiau etholiadol yn addas (cynghorau tref oedd 3 ohonynt). Roedd 6 yn credu dylid dileu neu uno’r wardiau. Cyflwynodd 4 arall wybodaeth ffeithiol yn unig.<br><br>(Er gwybodaeth - mae 27 o’r 40 cyngor trefn a chymuned ar Ynys Mon wedi eu rhannu’n wardiau etholiadol). |

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 5: Oes gennych chi unrhyw sylw ar enwau eich wardiau etholiadol, os yn berthnasol? | Cafwyd 9 ymateb.<br><br>Nododd pob un eu bod yn meddwl bod yr enwau'n briodol, neu nad oedd ganddynt sylw. |

**Casgliadau cychwynnol a camau nesaf**

9. Mae'n amlwg bod nifer o seddi gwag ar draws y cynghorau a rhai cynghorau yn cael trafferth eu llenwi. Ychydig iawn o etholiadau sy'n cael eu cynnal, a'r drefn gyfethol a ddefnyddir i lenwi seddi yn y mwyafrif helaeth o achosion. Er bod cefnogaeth i wardiau etholiadol ymysg cynghorau mwy o faint, mae rhai cynghorau llai yn credu dylid eu dileu ac y gall hynny wneud y broses o lenwi seddi gwag yn haws.

10. Bydd gwaith pellach yn digwydd dros yr haf i wneud ymchwil pellach a datblygu cynigion drafft. Ar sail y dystiolaeth gychwynnol, bydd y cynigion drafft yn argymell lleihau'r nifer o wardiau etholiadol mewn cymunedau, oni bai bod tystiolaeth gadarn i'w cadw.

11. Ar hyn o bryd mae'r adolygiad yn llwyddo i gadw at yr amserlen ac nid ydym yn rhagweld unrhyw broblem ei gwblhau mewn da bryd cyn etholiadau lleol Mai 2027.

**Argymhelliad**

12. Gofynnir i'r Pwyllgor:
    a. nodi cynnwys yr adroddiad a'r amserlen
    b. ystyried cwestiynau yr ymgynghoriad cychwynnol a chyfrannu unrhyw sylwadau perthnasol.

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 11 Mehefin 2026 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Arolwg Bodlonrwydd Aelodau |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Papur trafod er mwyn cael barn aelodau ar y materion i'w holi mewn arolwg. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Cynhelir etholiadau lleol ym mis Mai 2027 ac mewn paratoad at hynny a chyfnod anwytho aelodau'r Cyngor newydd o 2027 ymlaen, rydym yn awyddus holi barn aelodau am eu profiadau er mwyn dysgu gwersi a chynllunio.

2. Fel cam cychwynnol, byddai'n ddefnyddiol derbyn mewnbwn y Pwyllgor er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau ar y trywydd cywir a'n bod yn holi am yr holl faterion perthnasol.

3. Fe wnaeth y broses panel asesiad perfformiad (PPA) gyffwrdd ar gefnogaeth aelodau a phwyllgorau yn ystod yr ymweliad ym mis Tachwedd, ac roedd yr adborth o'r broses honno yn gadarnhaol ar y cyfan. Deallwn hefyd bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnal arolwg gyda chynghorwyr sy'n ymddeol a ddim yn bwriadu sefyll yn etholiadau 2027.

4. Mae'r prosesau hyn yn gymorth i ddeall mwy am anghenion aelodau, ond nid ydynt yn mynd i'r manylder fydd ei angen arnom. Credwn felly mai cynnal ymarferiad penodol wedi ei deilwra i aelodau Cyngor Mon ydi'r datrysiad cywir er mwyn ein galluogi i wneud unrhyw welliannau angenrheidiol ar gyfer 2027.

**Cynllun ac amserlen**

5. Ein bwriad ydi datblygu holiadur dros yr haf i'w rannu gyda holl aelodau'r Cyngor yn ystod diwedd Awst a Medi. Bwriadwn roi cyfnod o 6 wythnos i aelodau ymateb i'r holiadur er mwyn rhoi digon o amser iddynt ystyried y pynciau dan sylw.

6. Rydym hefyd yn bwriadu trefnu sgyrsiau 1:1 gyda sampl o aelodau er mwyn gallu trafod rhai pynciau mewn mwy o fanylder. Bydd y sgyrsiau 1:1 yn digwydd ar ôl derbyn yr holiaduron er mwyn ein galluogi i ddilyn i fyny ar rhai themâu cyffredin sy'n codi o'r ymatebion.

7. Cynllun amlinellol:

| | |
|---|---|
| Cam 1 | Rhannu holiadur arolwg gyda holl aelodau canol Awst am 6 wythnos. |
| Cam 2 | Arolwg yn cau diwedd Medi. |
| Cam 3 | Swyddogion i ystyried y sylwadau a threfnu cyfarfodydd 1:1 gyda sampl o aelodau yn ystod mis Hydref. |
| Cam 4 | Cyflwyno diweddariad a chanfyddiadau cychwynnol i'r Pwyllgor Democrataidd ar 19 Tachwedd. |
| Cam 5 | Llunio cynllun gweithredu ar sail canfyddiadau'r arolwg a'i drafod yn y Pwyllgor Democrataidd ym mis Mawrth 2027. |
| Cam 6 | Gweithredu'r cynllun erbyn Mai 2027. |

8. Dyma'r themâu rydym yn bwriadu holi aelodau amdanynt:
    a. Bodlonrwydd cyffredinol gyda'r gwasanaeth democrataidd
    b. Cefnogaeth i aelodau
    c. Dulliau cysylltu a rhannu gwybodaeth
    d. Gwasanaethau pwyllgor
    e. Llesiant a diogelwch
    f. Hyfforddiant a sgiliau
    g. Technoleg gwybodaeth
    h. Trefniadau anwytho

**Trafodaeth**

9. Ydych chi'n cytuno gyda'r bwriad i holi barn aelodau er mwyn cynllunio ar gyfer y cyngor newydd a threfniadau anwytho?

10. Ydych chi'n cytuno bod anfon holiadur at yr holl aelodau a chynnal sgyrsiau 1:1 manylach gyda detholiad o aelodau yn ffordd addas o gasglu gwybodaeth?

11. Pa aelodau ddylai fod yn rhan o'r sampl ar gyfer cyfarfodydd 1:1? A fyddai'n addas cynnwys aelodau'r Pwyllgor Democrataidd er enghraifft?

12. Ydi'r cynllun / amserlen yn paragraff 7 yn briodol?

13. Ydych chi'n cytuno gyda'r themâu yn paragraff 8?  Oes rhywbeth ar goll?

14. Oes rhywbeth arall dylid ei ystyried fel rhan o'r arolwg?

**Argymhelliad**

15. Gofynnir i'r Pwyllgor am ei farn ar y cynigion yn yr adroddiad.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 11 Mehefin 2026 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diweddariad Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar waith llywodraethu a chefnogi y gwasanaeth. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cefndir**

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar waith y gwasanaeth democrataidd mewn perthynas a llywodraethiant a chefnogaeth aelodau.

**Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig**

2. Derbyniwyd 23 (66%) adroddiad blynyddol aelod etholedig ar gyfer 2025/26 hyd yma. Dyma'r nifer a dderbyniwyd yn 2024/25 hefyd, ac mae ychydig yn is na'r 26 a dderbyniwyd ar gyfer 23/24. Er hynny, mae'r ganran o adroddiadau a dderbyniwyd yn cymharu'n ffafriol gyda chynghorau eraill ar draws y gogledd. Mae'n bwysig nodi hefyd nad oes gofyn statudol ar aelodau i ddychwelyd adroddiad.

3. Rydym yn y broses o drefnu cyhoeddi'r adroddiadau ar wefan y Cyngor yn y drefn arferol gyda golwg ar gyhoeddi popeth cyn diwedd y mis.

**Sgyrsiau datblygu blynyddol a chofnodion hyfforddiant**

4. Caiff diweddariadau ar hyfforddiant aelodau eu hanfon at arweinyddion grŵp perthnasol yn ol yr angen. Mae hynny'n fodd o fonitro presenoldeb mewn hyfforddiant, a hyfforddiant mandadol yn benodol. Mae'r lefelau cwblhau hyfforddiant mandadol wedi gwella dros y misoedd diwethaf yn sgil ymdrechion y tim dysgu a datblygu a'r gwasanaeth democrataidd.

5. Mae proses "sgwrs flynyddol" mewn lle ar gyfer arweinyddion grŵp a'u haelodau. Trefniant ydi hwn i alluogi arweinydd grŵp i drafod datblygiad yr aelod dan sylw ac unrhyw faterion eraill perthnasol fel llesiant ac hyfforddiant. Cafodd templed sgwrs flynyddol 25/26 ei rannu gyda arweinyddion grŵp ym mis Chwefror ac mae'r cyfnod wedi dod i ben am eleni.

6. Yn ystod y misoedd nesaf bydd hyfforddiant ar gydraddoldeb yn cael ei gynnig i aelodau a byddwn yn gweithio gyda'r aelodau hynny sydd ddim wedi cwblhau unrhyw fodiwlau mandadol.

**Llesiant Aelodau**

7. Mae'n bosibl bydd rhai materion llesiant yn codi yn ystod y sgyrsiau datblygu, ac mae gwasanaeth cwnsela Medra ar gael i aelodau'r Cyngor. Mae'n wasanaeth proffesiynol a chyfrinachol ac ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae gwybodaeth wedi ei rannu gyda aelodau yn flaenorol am y gwasanaeth a byddwn yn cysylltu eto diwedd mis Mehefin er mwyn cyd-fynd gyda'r wythnos llesiant cenedlaethol.

8. Ymhellach i hynny, rydym yn ymwybodol bod aelodau etholedig yn destun ymddygiad bygythiol a sylwadau sarhaus ar adegau. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru swyddog sy'n cynghori ar faterion aelodau etholedig ac mae hyfforddiant ar gael i aelodau ar ddiogelwch. Anfonwyd gwybodaeth at aelodau ym mis Mawrth.

**Ymgysylltu**

9. Cafodd sesiwn "galw i mewn" ei beilota gyda'r Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd. Trefnwyd bod rhai o uwch swyddogion rhanbarthol y Bwrdd Iechyd ar gael i glywed pryderon ac ateb cwestiynau aelodau. Roedd yn sesiwn agored ac anffurfiol ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol. Yn sgil hynny trefnwyd sesiwn galw i mewn arall ar 16 Mehefin.

10. Yn dilyn sesiwn briffio aelodau yn ddiweddar, cytunwyd i gynllunio ar gyfer sesiwn "galw i mewn" gyda'r Heddlu ar blismona lleol maes o law. Fe wnawn ni roi gwybod i aelodau unwaith fydd dyddiad wedi ei drefnu.

11. Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ysgolion cynradd yr Ynys wedi cael gwahoddiad i ymweld a'r Siambr a chael sesiynau cwestiwn ac ateb gyda aelodau. Mae 5 ysgol wedi ymweld gyda'r Cyngor yn 25/26 a bydd 3 arall yn ymweld a'r Cyngor cyn gwyliau'r haf . Caiff aelodau lleol eu gwahodd i'r ymweliadau.

12. Mae'r ymweliadau yn ffordd dda o gyflwyno plant yr Ynys i waith y Cyngor Sir ac i drefniadau democratiaeth lleol. Byddwn yn adolygu'r trefniadau ymweliadau ysgolion dros yr haf ac yn ystyried a oes unrhyw addasiadau i'w gwneud i'r trefniadau.

**Argymhelliad**

13. Gofynnir i'r Pwyllgor:

a. nodi cynnwys yr adroddiad, ac
b. ystyried unrhyw anghenion pellach mewn perthynas a chefnogaeth aelodau

This page is intentionally left blank